

Mae'r tabl isod yn nodi'r cwestiynau a ofynnwyd gan ddarparwyr a fynychodd y Digwyddiadau i Ddarparwyr Gofal Plant a Chwarae, a gynhaliwyd yn rhithwir ar 18 a 19 Mai 2022, ac atebion AGC i'r cwestiynau hynny.

Cawsom yr ymholiadau canlynol ynghylch amlder yr arolygiadau a sgoriau arolygu.	Ein hymateb
<ul style="list-style-type: none"> • A yw arolygiadau'n dal i gael eu cynnal bob tair blynedd neu a oes ôl-groniad, ac os felly, faint? • Os cawsom ein harolygu ar ôl i AGC oedi ei sgoriau, a fyddwn yn cael ein harolygu eto cyn i'n tair blynedd ddod i ben? • Rwy'n warchodwr plant sydd newydd gofrestru a chynhaliwyd fy ymweliad cofrestru yn rhithwir. Pryd fydd arolygiadau yn dychwelyd i ymweliadau wyneb yn wyneb? 	<p>Nid yw ein hamlder arolygu wedi newid, ond mae'r pandemig wedi golygu bod llawer o arolygiadau wedi'u gohirio. Bydd y prosiect ffyrdd newydd o weithio yn edrych ar sut rydym yn strwythuro ein hamlder arolygu yn y dyfodol a sut rydym yn sicrhau ein bod yn blaenoriaethu mynd allan i wasanaethau yn y ffordd orau.</p> <p>Oedodd AGC y broses o ddyfarnu sgoriau ar ddau achlysur yn ystod y pandemig. Mae rhai darparwyr wedi holi ynglŷn â chyhoeddi eu sgoriau 'tawel' ac rydym yn adolygu a allwn wneud hynny a sut y gallwn ei wneud mewn ffordd sy'n deg i bawb.</p> <p>Ein nod yw arolygu gwasanaethau sydd newydd eu cofrestru o fewn chwe mis i'w cofrestru, ond mae llawer o'r rhain wedi'u gohirio. Rydym yn trefnu arolygiadau ar sail blaenoriaeth, gan gynnwys y rhai sydd fwyaf hwyr.</p>

<p>Cawsom yr ymholiad canlynol mewn perthynas ag arolygiadau ar y cyd ag Estyn.</p>	<p>Ein hymateb</p>
<ul style="list-style-type: none"> Os nad yw ein lleoliad yn cynnig Hawl Cynnar, a fyddwn ni'n cael arolygiad AGC yn unig? 	<p>Mae AGC ond yn cynnal arolygiadau ar y cyd ag Estyn ar gyfer gwasanaethau lle mae hawl cynnar yn cael ei ddarparu. Bydd unrhyw wasanaeth nad yw'n darparu addysg a ariennir ar gyfer plant tair a phedair oed yn cael arolygiad AGC yn unig.</p>
<p>Cawsom yr ymholiad canlynol mewn perthynas â Pholisiau a Gweithdrefnau</p>	<p>Ein hymateb</p>
<ul style="list-style-type: none"> A oes rhaid i bob polisi a gweithdrefn asesu risg ac ati fod ar gael ar ffurf copi caled? 	<p>Nid oes unrhyw reswm pam na ellir storio dogfennau yn ddigidol, cyhyd â bod unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol gan y Rheoliadau ar gael i arolygwyr yn ystod arolygiad. Dylid storio'r holl wybodaeth a gedwir yn y modd hwn yn unol â gofynion GDPR.</p>
<p>Cawsom yr ymholiad canlynol mewn perthynas â'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth.</p>	<p>Ein hymateb</p>
<ul style="list-style-type: none"> A fydd yn rhaid cwblhau Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth eleni? 	<p>Rydym wedi gohirio'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth tan 2023. Gellir dod o hyd i'r wybodaeth lawn am hyn yma.</p>
<p>Cawsom yr ymholiadau canlynol mewn perthynas â'r broses arolygu.</p>	<p>Ein hymateb</p>
<ul style="list-style-type: none"> A fydd arolygwyr yn dilyn yr un canllawiau? Rwyf wedi clywed am gyngor a safbwyntiau gwahanol o ran pethau y mae angen i leoliadau eu gwneud. 	<p>Mae pob arolygydd yn dilyn yr un arweiniad ac rydym yn ymdrechu i sicrhau cysondeb. Mae pob darparwr yn unigryw ac rydym yn ystyried y cyd-destun - gall hyn edrych fel anghysondeb pan nad yw hynny'n wir. Ond rydym yn derbyn efallai na fyddwn bob amser yn</p>

<ul style="list-style-type: none"> • Beth fydd yn digwydd os nad yw'r unigolyn cyfrifol neu'r person cofrestredig ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad? • Pa mor aml y mae angen cynnal yr Adolygiad Ansawdd Gofal? • A roddir rhybudd bod lleoliad yn mynd i gael ei arolygu neu a yw arolygwyr yn dal i ddod heb rybudd? • A oes rhywun yn AGC y gallwn ei alw pan fydd arolygwyr yn cyrraedd i gadarnhau mai arolygwyr AGC ydynt mewn gwirionedd? 	<p>ei gael yn gywir. Gellir dod o hyd i'n Fframwaith Arolygu yma, a'r Cod Ymarfer ar gyfer Arolygu yma</p> <p>Bydd yr arolygydd yn gweithio gyda'r unigolyn cyfrifol/person cofrestredig i gytuno ar amser sy'n gyfleus i'r ddwy ochr er mwyn rhoi adborth, fodd bynnag, byddwn bob amser yn ceisio trefnu hyn cyn gynted â phosibl ar ôl yr arolygiad. Gellir gwneud hyn dros y ffôn neu drwy alwad fideo.</p> <p>Dylai'r gwaith o gasglu adborth a gwybodaeth arall a nodi meysydd i'w gwella fod yn broses barhaus sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd. Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gynhyrchu adroddiad yn manylu ar eu canfyddiadau o'r broses adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn.</p> <p>Rhoddir rhybudd ar gyfer ein harolygon ar y cyd ag Estyn; rhoddir deg diwrnod o rybudd i ddarparwyr.</p> <p>Mae ein harolygiadau AGC yn unig yn ddirybudd.</p> <p>Byddwn yn cysylltu â gwarchodwyr plant a Chynlluniau Chwarae Mynediad Agored i ganfod pa ddyddiau ac amseroedd y maent yn gweithio, er mwyn rhoi'r siawns orau i ni osgoi ymweliad aflwyddiannus, ond ni fyddwn yn trefnu dyddiad nac amser ar gyfer yr arolygiad.</p> <p>Mae pob Arolygydd yn cario cerdyn adnabod gyda nhw, a bydd logo AGC a llofnod y Prif Arolygydd arno. Fodd bynnag, os ydych yn ansicr, gallwch ffonio AGC ar 0300 790 0126 a gofyn am gadarnhad.</p>
--	--

<ul style="list-style-type: none"> Pa mor fanwl y mae angen i'r staff wybod am bolisïau lleoliad, gan gofio nifer y polisïau a all fod gan leoliad? 	<p>Dylai fod gan yr holl staff wybodaeth ymarferol dda am bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad a dylai hyn gael ei hadlewyrchu yn eu harferion. Byddem yn disgwyl i bolisïau fod ar gael yn rhwydd i'r staff fel y gallant wirio a ydynt yn ansicr o unrhyw beth.</p>
<p>Cawsom yr ymholiadau canlynol am ddefnyddio AGC Ar-lein</p>	<p>Ein hymateb</p>
<ul style="list-style-type: none"> Sut ydych chi'n newid oriau ar AGC Ar-lein, rydw i wedi cael golwg ond yn ansicr sut i wneud hyn. 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd angen i chi fewngofnodi i'ch cyfrif AGC Ar-lein a dewis yr opsiwn i ddiweddarau eich Datganiad o Ddiben. Gofynnir i chi nodi'r oriau agor wedi'u diweddarau o fewn y broses o gwblhau'r hysbysiad. Bydd gofyn i chi hefyd lanlwytho copi o'ch Datganiad o Ddiben yn dangos eich oriau agor wedi'u diweddarau.
<p>Cawsom yr ymholiad canlynol am Wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd</p>	<p>Ein hymateb</p>
<ul style="list-style-type: none"> Sut ydw i'n dangos fy nhystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i diweddarau i chi? 	<ul style="list-style-type: none"> Anfonwch e-bost at agc@llyw.cymru a rhowch wybod i ni fod gennych dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i diweddarau i ni ei gweld. PEIDIWCH â chynnwys unrhyw fanylion o'ch gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn yr e-bost hwn. Yna, byddwn yn cysylltu â chi i drefnu gweld eich tystysgrif.
<p>Cawsom yr ymholiad canlynol am Y Cynnig Gofal Plant</p>	<p>Ein hymateb</p>
<ul style="list-style-type: none"> A oes gennym unrhyw wybodaeth bellach am y cynnig gofal plant i blant dros ddwy oed 	<p>Ehangu gofal plant a ariennir gan y llywodraeth i blant dwy oed</p> <ul style="list-style-type: none"> Bydd cam cyntaf y broses ehangu, sydd i ddechrau ym mis Medi 2022, yn cynnwys pedair elfen Dechrau'n Deg: gofal plant rhan-amser o ansawdd uchel a ariennir, cymorth

	<p>rhianta, mwy o gymorth gan ymwelwyr iechyd, a chymorth ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd y cam cyntaf hwn yn digwydd mewn nifer fach o ardaloedd sydd eto i'w cadarnhau gan awdurdodau lleol. • Yn ystod y cam cyntaf y nod yw y bydd tua 2,500 o blant ychwanegol (0 i 4 oed) yn elwa ar bedair elfen Dechrau'n Deg. • Mae'r gofal plant sydd ar gael trwy Dechrau'n Deg ar gyfer plant dwy i dair oed. Mae'n cynnwys 12.5 awr yr wythnos, am 39 wythnos y flwyddyn, o ofal plant o ansawdd uchel a ariennir. Bydd ar gael mewn lleoliadau penodol yng nghan cyntaf yr ehangu.
<p>Cawsom yr ymholiadau canlynol ynglŷn â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol</p>	<p>Ein hymateb</p>
<ul style="list-style-type: none"> • A fydd unrhyw amrywiad yn y cymarebau gwarchodwyr plant? • A yw'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cael eu hadolygu? A oes newid yn mynd i fod yn niferoedd y rhai dan bump oed? • A gaf i ofyn a fydd rhywfaint o ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyblygrwydd gwarchodwyr plant gyda gorgyffwrdd o awr a hanner wrth gasglu a gollwng plant tair oed i leoliadau meithrin ac oddi yno? Mae'n gyfyngol iawn i ni pan welwn feithrinfeydd yn casglu pedwar o blant ar yr un pryd. • O ran cymarebau, a yw'r gymhareb yn cynyddu ar gyfer staff sydd â lefel 6 (Statws Athro Cymwysedig)? 	<p>Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal adolygiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Bwriedir ymgynghori â'r cyhoedd ar hyn yn ddiweddarach yn 2022. Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at holl ddarparwyr gofal plant a gwasanaethau chwarae yng Nghymru pan fydd y cyfnod ymgynghori hwn yn dechrau.</p> <p>Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw amrywiadau i'r cymarebau oedolyn i blentyn a amlinellir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, waeth beth fo lefel cymhwyster y staff.</p>

<p>Cawsom yr ymholiad canlynol ynglŷn â Chymwysterau.</p>	<p>Ein hymateb</p>
<p>Mae'r sector yn wynebu anawsterau o ran recriwtio staff cymwys. A fydd unrhyw ymgynghori rhwng AGC, Gofal Cymdeithasol Cymru a darparwyr ynghylch unrhyw newidiadau i gymwysterau?</p>	<p>Mae adolygiad o'r cymwysterau gofal plant wedi'i gynllunio i'w gynnal yn 2024 fel rhan o'r broses ar gyfer cymwysterau newydd a oruchwylir gan Cymwysterau Cymru. Bydd AGC, Llywodraeth Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a rhanddeiliaid a darparwyr hyfforddiant ehangach yn cael cyfle i gyfrannu at yr adolygiad a rhannu eu profiadau a'u barn ar y cymwysterau newydd hyd yn hyn. Bydd hyn yn cynnwys adborth ar y nifer sy'n dilyn cymwysterau, maint y cymhwyster, yn ogystal ag effaith y cymwysterau newydd ar y gweithlu a'r lleoliadau. Bydd y broses adolygu yn caniatáu i safbwyntiau gael eu rhannu gyda'r nod o sicrhau bod cymwysterau yn addas i'r diben.</p> <p>Er mwyn cyflwyno rhywfaint o hyblygrwydd i ofynion cymwysterau presennol ar gyfer gofal plant, mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn datblygu prosiect cywerthedd a fydd yn asesu cymwysterau blaenorol unigolyn (mewn addysg er enghraifft), yn erbyn yr egwyddorion dylunio sy'n sail i gymwysterau gofal plant. Y bwriad fyddai y bydd y rheini y mae eu cymhwyster yn cael ei asesu fel un sy'n bodloni'r safonau dylunio y mae cymwysterau gofal plant yn seiliedig arnynt yn gallu gweithio fel aelod cymwys o staff mewn lleoliad gofal plant. Pan fo'r asesiad yn datgelu diffyg, gellir datblygu Cynllun Gweithredu i gefnogi'r unigolyn hwnnw i gau'r bwlch a gweithio fel aelod cymwys o staff mewn lleoliad gofal plant. Mewn achosion lle asesir nad yw'r cymhwyster yn gyfwerth neu nid yw'r diffyg o fewn cyrraedd rhesymol, bydd angen i'r unigolyn ymgymryd â chymhwyster gofal plant i gael ei ystyried yn aelod cymwys o staff.</p>
<p>Cawsom yr ymholiadau canlynol mewn perthynas â Diogelu.</p>	<p>Ein hymateb</p>

<ul style="list-style-type: none"> • Os yw fy lleoliad yn gwneud atgyfeiriad i'r Gwasanaethau Cymdeithasol am blentyn yn ein gofal, oherwydd digwyddiad a ddigwyddodd ar ein safle, a oes rhaid i ni hysbysu AGC? • Os yw fy lleoliad yn gwneud atgyfeiriad i'r Gwasanaethau Cymdeithasol am blentyn yn ein gofal, oherwydd rhywbeth a ddigwyddodd gartref, a oes rhaid inni hysbysu AGC? • A oes rhaid i'r lleoliad hysbysu AGC am bob plentyn ar y gofrestr Amddiffyn Plant? • A ddylai'r Polisi Diogelu gyfeirio at ddileu amddiffyniad cosb resymol? A fyddai angen crynhoi'r Ddeddf o fewn y polisi? • Pan gynigir cwrs amddiffyn plant a chwrs diogelu i leoliadau, a ddylem wneud y ddau, neu a yw'r ddau yn cwmpasu'r un wybodaeth? 	<p>Oes, rhowch wybod i AGC gan ddefnyddio AGC Ar-lein.</p> <p>Oes, rhowch wybod i AGC gan ddefnyddio AGC Ar-lein.</p> <p>Nac oes. Mae'n ofynnol i ddarparwyr hysbysu AGC am yr atgyfeiriadau a wnânt yn unig. Os yw plentyn eisoes ar y Gofrestr Amddiffyn Plant pan fydd yn dechrau yn y lleoliad, nid oes angen i chi hysbysu AGC.</p> <p>Byddai'n arfer da i unrhyw Bolisi Diogelu sôn am ddileu amddiffyniad cosb resymol. Gallai'r polisi roi trosolwg o'r Ddeddf, neu gallai ddarparu dolen i'r Ddeddf (os caiff ei chadw'n rhithiol).</p> <p>Mater i'r darparwyr yw sicrhau bod yr hyfforddiant a gaiff staff yn ddigonol i'w galluogi i nodi, asesu ac adrodd ar faterion diogelu. Mae'r termau Amddiffyn a Diogelu Plant yn aml yn cael eu defnyddio'n gyfnewidiol, felly bydd angen i ddarparwyr holi am gynnwys y cwrs i sicrhau ei fod yn ymdrin â'r holl faterion sy'n berthnasol i Ddiogelu yn gyffredinol.</p>
<p>Cawsom y rhain hefyd Ymholiadau Cyffredinol</p>	<p>Ein hymateb</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Sut gallaf ddarganfod pwy yw fy arolygydd? • Beth yw cyfeiriad e-bost AGC? 	<p>Y ffordd orau o wneud hyn yw ffonio AGC ar 0300 7900 126. Fodd bynnag, er ein bod yn gweithio i ddal i fyny yn dilyn y pandemig, mae gwaith yn cael ei ddyrannu ar draws y tîm i wneud y defnydd gorau o'n hadnodd ac efallai na fyddwch yn cael eich arolygu gan eich arolygydd enwebedig.</p> <p>O bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen i chi gysylltu ag AGC trwy e-bost a dylech ddefnyddio agc@llyw.cymru i wneud hyn. Fodd</p>

- Os byddwn yn cau'r lleoliad e.e. ar gyfer hyfforddiant staff, a oes angen i ni hysbysu AGC? Os felly, sut mae gwneud hyn?

bynnag, yn ddiweddar rydym wedi newid y ffordd yr ydym yn gofyn am ddogfennau gan ddarparwyr. Rydym bellach yn gwneud hyn trwy gyfrif AGC Ar-lein darparwr. Gellir dod o hyd i wybodaeth lawn am hyn [yma](#).

Oes, os yw'r lleoliad ar gau am unrhyw reswm mae angen i chi hysbysu AGC. Gwnewch hyn drwy eich cyfrif AGC Ar-lein gan ddefnyddio'r opsiwn 'digwyddiadau arwyddocaol'. Rydym yn cydnabod mai dim ond hysbysiad cau sydd ar gael ar hyn o bryd mewn perthynas â COVID 19, ac rydym yn gweithio i ddatrys hyn.